# Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017

**2017 dccc 2**

## RHAN 4

TRINIAETHAU ARBENNIG

*Gorfodi*

### 88 Pwerau arolygu etc.

(1) Caiff person awdurdodedig sy'n mynd i mewn i fangre o dan adran 84, neu yn rhinwedd gwarant o dan adran 85 neu 86, wneud unrhyw un neu ragor o'r canlynol os yw'r swyddog yn ystyried ei bod yn angenrheidiol at ddiben arfer swyddogaethau'r awdurdod o dan y Rhan hon neu yn rhinwedd y Rhan hon—

(a) cynnal arolygiadau ac archwiliadau yn y fangre;

(b) ei gwneud yn ofynnol cyflwyno unrhyw beth yn y fangre, ei arolygu, a chymryd a chadw samplau ohono neu echdynion ohono;

(c) cymryd meddiant o unrhyw beth yn y fangre, a'i gadw am gyhyd ag y mae'r swyddog yn ystyried ei bod yn angenrheidiol at y diben hwnnw;

(d) ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson roi gwybodaeth, neu ddarparu cyfleusterau a chymorth mewn cysylltiad â materion sydd o fewn rheolaeth y person.

(2) Os yw'r swyddog awdurdodedig yn ystyried ei bod yn angenrheidiol at ddiben arfer swyddogaethau'r awdurdod lleol o dan y Rhan hon neu yn rhinwedd y Rhan hon, caiff y swyddog drefnu i unrhyw beth a gyflwynir o dan is-adran (1)(b), neu unrhyw beth y mae'r swyddog wedi cymryd meddiant ohono o dan is-adran (1)(c), gael ei ddadansoddi.

(3) Os yw'r swyddog awdurdodedig, yn rhinwedd is-adran (1)(c), yn cymryd unrhyw beth o'r fangre, rhaid i'r swyddog adael yn y fangre y cafodd ei gymryd ohoni ddatganiad—

(a) sy'n rhoi manylion yr hyn sydd wedi ei gymryd ac sy'n datgan bod y swyddog wedi cymryd meddiant ohono, a

(b) sy'n nodi'r person y caniateir gofyn iddo i'r eiddo gael ei ddychwelyd.

(4) Mae’r pwerau a roddir gan yr adran hon yn cynnwys y pŵer—

(a) i gopïo dogfennau y deuir o hyd iddynt yn y fangre;

(b) i osod gofynion o ran sut y darperir dogfennau (a gaiff gynnwys gofynion i ddarparu copïau darllenadwy o ddogfennau y deuir o hyd iddynt yn y fangre ac a gedwir yn electronig).

(5) At y diben hwn, mae “dogfennau” yn cynnwys gwybodaeth sydd wedi ei chofnodi ar unrhyw ffurf; ac mae cyfeiriadau at ddogfennau y deuir o hyd iddynt yn y fangre yn cynnwys—

(a) dogfennau a gedwir ar gyfrifiaduron neu ddyfeisiau electronig eraill yn y fangre, a

(b) dogfennau a gedwir yn rhywle arall ac y gellir cael mynediad iddynt drwy gyfrifiaduron neu ddyfeisiau electronig eraill yn y fangre.

(6) Nid yw’r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i berson ateb unrhyw gwestiwn neu gyflwyno unrhyw ddogfen y byddai hawl gan y person i wrthod ei ateb neu wrthod ei chyflwyno mewn achos mewn llys yng Nghymru a Lloegr neu at ddibenion achos o’r fath.

(7) Mae’r adran hon yn gymwys i gerbyd fel pe bai’n fangre.